

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

Longyfarchiadau...

CLWB PÊL-DROED PONTYPRIDD



**12 Diwrnod y Nadolig 2025
Enillydd 11**

CLWB PÊL-DROED PONTYPRIDD

IYn 2018, cafodd Clwb Pêl-droed Pontypridd ei adfywio, ar ôl dros 90 o flynyddoedd. Cafodd y clwb ei sefydlu yn wreiddiol ym 1911, ond daeth i ben ym 1926 o ganlyniad i broblemau ariannol. Cafodd y clwb ei ddechrau unwaith eto drwy sefydlu timau newydd i ddynion a bechgyn dan 13 oed, gyda'r nod o dyfu i fod yn glwb sy'n cynrychioli'r gymuned gyfan.

Erbyn hyn, mae gan y clwb ddau dîm i ddynion, ac mae'r tîm gwreiddiol i fechgyn dan 13 oed bellach yn dîm ieuenctid, gyda mwy nag 20 o'r chwaraewyr yn symud ymlaen i chwarae pêl-droed cystadleuol i dîm y dynion yn ystod tymor 2024/25. Mae'r clwb wedi sefydlu adran i blant, sydd erbyn hyn yn cynnwys dros 35 o chwaraewyr sy'n chwarae yn rhan o dimau dan 6 oed, dan 7 oed a dan 8 oed. Dros yr haf, fe wnaeth y clwb uno â Chlwb Pêl-droed i Fenywod Pontypridd, gan sefydlu tîm i ferched. Mae'r clwb hefyd wedi sefydlu timau dan 6 oed, dan 8 oed a dan 11 oed i ferched.

Ym mis Hydref eleni, roedd y clwb yn falch iawn o ddychwelyd i'w gartref gwreiddiol ym Mharc Dyffryn Taf. Yn dilyn cyfnod hir o waith caled, cafodd y clwb yr allweddi ac fe ddychwelon nhw i'r maes lle chwaraeodd Clwb Pêl-droed Pontypridd yn ystod blynyddoedd cynnar y clwb.